# Beth rydym yn ei arolygu

# Cymraeg i Oedolion o fis Medi 2024



# Cynnwys

Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu' .... 1
**Gwerthuso pob maes arolygu (MA)** .... **1**
**Yr adroddiad arolygu** .... **1**
**Ynglŷn â'r darparwr** .... **2**
**Crynodeb** .... **2**
**Argymhellion** .... **2**
**Beth sy'n digwydd nesaf** .... **2**
**Prif werthusiad** .... **2**
**Sail dystiolaeth yr adroddiad** .... **3**
**Meysydd arolygu** .... **3**
1. Addysgu a dysgu .... 4
2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad .... 4
3. Arwain a gwella .... 4
**Manylion am bob maes arolygu** .... **5**
1. Addysgu a dysgu .... 5
2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad .... 7
3. Arwain a gwella .... 9

# Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r tri maes arolygu mewn arolygiad llawn o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion (Dysgu Cymraeg). Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, yn cynnwys yr enwebai. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i ddarparwyr gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'r tri maes arolygu wedi'u hamlinellu isod:

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

# Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu yn rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn gwneud gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth y darparwr a'i heffaith ar ddysgu a lles.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir o ran y prif ffocysau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir. Fodd bynnag, gallai'r hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno o fewn pob maes arolygu fod yn wahanol, yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob darparwr. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau yn unig lle mae cryfderau penodol neu feysydd penodol i'w gwella.

Pan fydd arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol sy'n werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys darn byr 'sbotolau ar…' o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos ystod o'r sbotoleuadau hyn ar ein gwefan. Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un o'r meysydd arolygu neu fwy, byddwn yn gwirio'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Yr adroddiad arolygu

Ar ôl arolygiad, bydd pob darparwr yn derbyn adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn. Gellir dod o hyd i ddyddiadau cyhoeddi ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob adran o'r adroddiad. Gellir dod o hyd i ddyddiadau cyhoeddi ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob adran o'r adroddiad.

# Ynglŷn â'r darparwr

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y darparwr; ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Mae'r arolygydd cofnodol fel arfer yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r enwebai yn ystod yr arolygiad, ac eto, yn ystod y gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Os oes anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y darparwr
- gwerth contract y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- nifer y dysgwyr ar gyrsiau ac ystod y ddarpariaeth a gynigir
- nifer y staff (rhan-amser ac amser llawn)
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf
- mis / blwyddyn arolygiad blaenorol y darparwr
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

# Crynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cryno o brif werthusiadau'r adroddiad. Bydd y crynodeb yn cynnwys y prif gryfderau a'r prif feysydd i'w gwella.

# Argymhellion

Dylai argymhellion ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, nodi'r hyn y mae angen ei wella, a byddant yn cael eu hysgrifennu yn nhrefn blaenoriaeth.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu. Bydd y cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael eu monitro yn arolygiad dilynol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd yr adran hon hefyd yn nodi unrhyw sbotoleuadau ar arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

# Prif werthusiad

Byddwn yn adrodd ar bob maes arolygu:

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

Bydd sbotoleuadau ar arfer ddiddorol ac arloesol yn cael eu cynnwys yn yr adran hon, hefyd. Bydd yn cynnwys pennawd bras sy'n cofnodi thema'r sbotolau wedi'i ddilyn gan y naratif. Bydd y pennawd a'r naratif yn cael eu cynnwys mewn blwch ar wahân. Yn ychwanegol, gallem wahodd y darparwr i gyfrannu astudiaeth achos fanylach, pan fo'n briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr fod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddion nhw, yn ogystal â'r ystod o weithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

## Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio'r hyn y mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu, a'r hyn y mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo'n 1 – 3, ond mae pob un ohonynt yr un mor bwysig â'i gilydd.

Ni fydd yr adroddiad arolygu yn ymdrin â phob agwedd yn y llawlyfr hwn, ond bydd bob amser yn adrodd ar bob un o’r prif ffocysau, ond nid o reidrwydd yn nhrefn y llawlyfr hwn. Dyma’r prif ffocysau ar gyfer pob maes arolygu:

## 1. Addysgu a dysgu

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae’r addysgu a’r asesu yn cynorthwyo pob un o’r dysgwyr i:

- wneud cynnydd sy’n briodol i’w gallu a/neu’u dyheadau
- galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol, caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd a chymhwyso’r rhain i sefyllfaoedd newydd
- annog a hwyluso cyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol weithredol, y tu mewn a’r tu allan i sesiynau ffurfiol, fel ei gilydd

Pa mor effeithiol y mae dysgwyr:

- yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn dod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog
- yn dysgu ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig llafaredd
- yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau ieithyddol, ac yn dod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol weithredol

## 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Ffocws

Pa mor effeithiol yw’r cymorth a’r arweiniad o ran sicrhau bod pob un o’r dysgwyr:

- yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo’n ddiogel
- yn profi effeithiau cadarnhaol ymgysylltu â dysgu ar eu lles
- yn cael eu parchu a’u trin yn deg
- yn derbyn cyngor ac arweiniad defnyddiol a diduedd cyn, yn ystod ac wrth iddynt symud ymlaen o’u cyrsiau
- yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a lles
- yn manteisio ar gymorth personol ac arbenigol effeithiol, pan fo’n briodol
- yn gallu newid rhwng darpariaeth nad yw’n ddwys a darpariaeth ddwys, yn unol â’u hanghenion a’u dyheadau sy’n newid
- mae barn am beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn cael ei chymryd o ddifri, a gweithredir yn unol â hi
- cyfathrebir â nhw yn effeithiol ac yn ystyrlon
- yn deall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu goddefgarwch a pharch
- yn cael eu cadw’n ddiogel ac yn saff gan drefniadau diogelu’r darparwr

## 3. Arwain a gwella

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn sefydlu a chyfleu gweledigaeth a nodau clir, yn gyson â gweledigaeth a nodau’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy’n cefnogi cynnydd a lles pob un o’r dysgwyr
- yn datblygu polisïau sy’n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr a’u dilyniant tuag at ruglder
- yn cyflwyno darpariaeth sy’n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a’r gymuned leol ac yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’u medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn
- yn nodi ac yn mynd i’r afael â meysydd i’w gwella, yn cynnwys mynd i’r afael ag argymhellion blaenorol, trwy hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o’r staff i gyflawni eu rolau’n effeithiol
- yn rheoli adnoddau’r darparwr, yn cynnwys lefelau priodol o staffio ac adnoddau dysgu a lleoliadau yn effeithiol

Bydd y tîm arolygu’n ystyried pob un o’r meysydd arolygu. Byddant yn gwneud cysylltiadau rhwng y meysydd i adrodd stori unigryw’r darparwr a’i gyd-destun.

# Manylion am bob maes arolygu

## 1. Addysgu a dysgu

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae'r addysgu a'r asesu yn cynorthwyo pob un o'r dysgwyr i:

- wneud cynnydd sy'n briodol i'w gallu a/neu'u dyheadau
- galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol, caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd a chymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd
- annog a hwyluso cyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol weithredol, y tu mewn a'r tu allan i sesiynau ffurfiol, fel ei gilydd

Pa mor effeithiol y mae dysgwyr:

- yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn dod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog
- yn dysgu ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig llafaredd
- yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau ieithyddol, ac yn dod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol weithredol

**Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i sut mae dysgwyr yn dysgu ac yn gwneud cynnydd.**

**Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid ac ymarferwyr eraill:**

- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran pob un o'r dysgwyr
- yn meddu ar amcanion clir ar gyfer dysgu'r dysgwyr ac yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb dysgwyr
- yn cynorthwyo ac yn herio pob un o'r dysgwyr i wneud cynnydd cryf, a'r graddau y maent yn herio dysgwyr mwy abl
- yn gwahaniaethu addysgu ar gyfer dysgwyr sydd uwchlaw ac islaw lefel y brif sesiwn
- yn defnyddio technegau holi amrywiol i amlygu a datblygu ymatebion a syniadau dysgwyr ymhellach, lle bo'n briodol
- yn rheoli ymddygiad dysgwyr ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol â'u dysgwyr
- yn gwneud eu sesiynau'n ysgogol ac yn hwyliog lle gall dysgwyr ar draws yr ystod gallu ddysgu'n gynhyrchiol
- yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso ystod eang o fedrau iaith sy'n briodol i'w lefel
- yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella
- yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill, lle bo'n briodol
- yn olrhain cynnydd pob dysgwr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynllunio yn y dyfodol

**Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r addysgu yn datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion yn ystod sesiynau a thros gyfnod, fel bod dysgwyr**:

- yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w gallu, yn enwedig eu cynnydd tuag at eu cymwysterau neu gyflawni eu nodau personol
- yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd
- yn dod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol weithredol ac annibynnol, y tu mewn a'r tu allan i sesiynau ffurfiol, fel ei gilydd

**Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, gan gynnwys pa mor dda y mae dysgwyr:**

- yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol
- yn defnyddio'u hamser yn gynhyrchiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth i gwblhau eu gwaith
- yn ymgysylltu'n dda â phrofiadau, syniadau a phobl newydd ac anghyfarwydd
- yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn dal ati i ganolbwyntio, gan osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw
- yn ymgymryd â thasgau, a'u cwblhau, ac yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
- yn gweithio'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft yn annibynnol, mewn grwpiau bach ac mewn dosbarth cyfan
- yn parchu cyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i ddysgwyr eraill siarad, neu'n aros yn bwyllog pan fydd dysgwyr eraill yn anghytuno â nhw
- yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u cyfoedion a phobl eraill
- yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth
- yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i sesiynau ffurfiol, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl; er enghraifft y graddau y mae dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy raglenni cymorth i ddysgwyr neu yn y gymuned ehangach i ddatblygu ac ymarfer eu medrau ieithyddol
- yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn dod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog

Dylai arolygwyr roi'r **pwys mwyaf ar fedrau siarad a gwrando dysgwyr** a gwerthuso'r canlynol:

- cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar wahanol lefelau a mathau o gyrsiau, e.e. cyrsiau dwys, dysgu o bell, cyrsiau gweithle, hunanastudio, ac ati, yn ogystal â dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan ystyried eu hanghenion a'u galluoedd unigol, a chyfradd y cynnydd a wnaeth y dysgwyr hyn yn gysylltiedig â'u targedau a'u mannau cychwyn unigol
- p'un a yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant, gan ystyried eu mannau cychwyn; er enghraifft pa mor dda y mae dysgwyr â medrau datblygedig yn cyflawni, a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn i gyflawni cystal ag y gallant

- y graddau y mae dysgwyr yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i fanteisio ar gyfleoedd dilyniant, lle bo'n briodol
- y graddau y mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith gyda'i gilydd a'r tiwtor
- pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn dosbarthiadau mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau eraill
- mae dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn siarad Cymraeg â hyder a rhuglder cynyddol mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac/neu'n ddigymell ag oedolion eraill, gan ystyried pa mor hir y mae dysgwyr wedi bod yn dysgu Cymraeg, a lefel a natur y cwrs y maent yn ei ddilyn ar hyn o bryd

## 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Ffocws

Pa mor effeithiol yw'r cymorth a'r arweiniad wrth sicrhau bod pob un o'r dysgwyr:

- yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel
- yn profi effeithiau ymgysylltu cadarnhaol â dysgu ar eu lles
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg
- yn derbyn cyngor ac arweiniad defnyddiol a diduedd cyn, yn ystod ac wrth iddynt symud ymlaen o'u cyrsiau
- yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a lles
- yn manteisio ar gymorth personol ac arbenigol effeithiol, lle bo'n briodol
- yn gallu newid rhwng darpariaeth nad yw'n ddwys a darpariaeth ddwys, yn unol â'u hanghenion a'u dyheadau sy'n newid
- mae barn am beth maent yn ei ddysgu a sut yn cael ei chymryd o ddifri, a gweithredir yn unol â hi
- cyfathrebir â nhw yn effeithiol ac yn ystyrlon
- yn deall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu goddefgarwch a pharch
- yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn saff gan drefniadau diogelu'r darparwr

**Dylai arolygwyr werthuso sut mae darpariaeth a gwasanaethau cymorth ac arweiniad y bartneriaeth, a threfniadau ar gyfer diogelu, yn effeithio ar les dysgwyr**.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae:

- dysgwyr yn mwynhau eu dysgu
- dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg
- yn teimlo'n ddiogel ac yn saff, ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol
- yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein

Dylai arolygwyr werthuso:

- effeithiolrwydd yr arweiniad a'r cyngor diduedd a roddir i ddysgwyr cyn dechrau eu cwrs
- effeithiolrwydd ffynonellau gwybodaeth, fel prosbectysau, taflenni cyrsiau a gwefan y darparwr, a chyfryngau electronig eraill
- effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol i

ddysgwyr, gan gynnwys gwasanaethau asiantaethau arbenigol sydd ar gael yn y darparwr a gan asiantaethau allanol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, gan gynnwys cyfrifoldebau personol, ariannol, domestig, cludiant, gofal iechyd a gofal teuluol

- pa mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr i newid rhwng darpariaeth nad yw'n ddwys a darpariaeth ddwys, yn unol â'u hanghenion a'u dyheadau sy'n newid
- pa mor dda y mae'r darparwr yn ystyried barn dysgwyr am beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac yn cyfathrebu â dysgwyr yn effeithiol ac yn ystyrlon

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn helpu dysgwyr i:

- ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu goddefgarwch a pharch
- herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o aflonyddu, gwahaniaethu a pheryglon radicaleiddio
- datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach
- ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan lawn yn eu cymuned ddysgu (gan gynnwys y rhai o wahanol grwpiau)

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Dylai arolygwyr ystyried a yw dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn saff gan drefniadau diogelu'r darparwr, a gwerthuso:

- trefniadau i nodi dysgwyr sydd mewn angen neu mewn perygl o niwed sylweddol
- p'un a yw'r darparwr wedi cynnal asesiadau risg ar ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, yn cynnwys gwiriadau iechyd a diogelwch ar leoliadau addysgu allanol
- sut mae'r darparwr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch
- p'un a yw trefniadau'r darparwr ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn effeithiol

Dylai arolygwyr:

- ystyried p'un a oes gan y darparwr weithdrefnau trylwyr ar gyfer recriwtio a gwirio addasrwydd staff
- gwirio bod pob un o'r staff yn gwybod beth i'w wneud i ymateb i faterion diogelu ac wedi derbyn hyfforddiant priodol
- gwerthuso priodoldeb polisi diogelu, gweithdrefnau a threfniadau adrodd y darparwr

## 3. Arwain a gwella

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn sefydlu a chyfleu gweledigaeth a nodau clir, yn gyson â gweledigaeth a nodau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob un o'r dysgwyr
- yn datblygu polisïau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr a'u dilyniant tuag at ruglder
- yn cyflwyno darpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol ac yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl, ac yn sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn
- yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, yn cynnwys mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol, trwy hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol
- yn rheoli adnoddau'r darparwr, yn cynnwys lefelau priodol o staffio ac adnoddau dysgu a lleoliadau yn effeithiol

**Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd, lles a datblygiad dysgwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel:**

- yn sefydlu a chyfleu gweledigaeth a nodau clir, amcanion a chynlluniau strategol, yn gyson â nodau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- yn datblygu polisïau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr a'u dilyniant ar y continwwm iaith, gan sicrhau bod dysgwyr yn caffael y medrau llafaredd a llythrennedd angenrheidiol i gefnogi eu datblygiad ieithyddol
- yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a nhw eu hunain
- yn datblygu tîm effeithiol ac ymgysylltiedig o staff cymorth
- yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ddarpariaeth a'r cydweithrediad effeithiol rhwng staff a darparwyr eraill
- yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau, a pha mor dda y maent yn gweithio gyda'i gilydd wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol a blaenoriaethau gwella
- yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n benodol i sector sy'n cael eu gosod gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- yn cyflenwi darpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol, ac yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

**Dylai arolygwyr werthuso:**

- patrwm a thueddiadau cofrestru dysgwyr, yn cynnwys cyrsiau dwys a dilyniant i gyrsiau lefel uwch

- pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr
- y ffordd y mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd teg ar gyfer dysgu i ddiwallu anghenion ystod o ddysgwyr, er enghraifft y rhai nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, y rhai sy'n dychwelyd i ddysgu, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig
- ehangder y ddarpariaeth a'r ffordd y mae darparwyr yn nodi a diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol
- natur a graddau cyfleoedd dysgu ychwanegol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft rhaglenni a gweithgareddau i gynorthwyo dysgwyr, sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl
- p'un a yw cyfran ddigonol o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn

**Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Dylent ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr:**

- yn deall cryfderau'r ddarpariaeth, a'i meysydd i'w gwella, a'r graddau y maent yn llywio blaenoriaethau strategol y darparwr
- yn cynnal darpariaeth o ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth
- yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau'r ddarpariaeth, gan gynnwys addysgu ac asesu
- yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr ac yn ei defnyddio'n briodol yn ystod cynllunio gwelliant
- yn gofyn am farn ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, fel darparwyr Dysgu Cymraeg eraill, rhwydweithiau dysgu proffesiynol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- p'un a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'r rheolwyr neu'r corff llywodraethol, er enghraifft o fewn sefydliadau lletyol, yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif
- ansawdd y cynllunio ar gyfer gwelliant a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanwerthuso'r darparwr
- yn diffinio camau perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella o fewn graddfeydd amser penodol a realistig, ac yn dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer eu cyflawni
- yn defnyddio data yn fewnol, gyda darparwyr eraill a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gymharu deilliannau dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol trwy weithgareddau ansoddol a meincnodi
- yn meddu ar gofnod o wneud gwelliannau a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy wella ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi
- yn nodi arfer dda o fewn y darparwr ac yn sicrhau bod aelodau staff eraill yn gallu elwa arni; er enghraifft trwy rannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff a gweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- wedi ymateb, lle bo'n briodol, i argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn neu argymhellion gan bartneriaid strategol, sefydliadau lletyol neu'r Ganolfan Genedlaethol, a ph'un a yw camau'r darparwr wedi arwain at welliannau

**Dylai arolygwyr werthuso pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Dylent ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr:**

- yn creu diwylliant ac ethos sy'n cefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys trefniadau i gynorthwyo pob un o'r staff i ymroi'n weithredol i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol
- yn sicrhau bod staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad
- yn rheoli perfformiad staff i helpu staff i wella'u harfer
- yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac ar unwaith, lle mae angen
- yn ystyried effaith dysgu proffesiynol ar arfer, gan gynnwys yr effaith ar gynnydd a lles dysgwyr
- yn rhannu deilliannau datblygiad proffesiynol gyda staff
- yn sicrhau bod staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a arweinir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er enghraifft fforymau datblygiad proffesiynol, rhaglenni hyfforddi a chymwysterau addysgu cenedlaethol

**Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli adnoddau'r darparwr, gan gynnwys lefelau priodol o staffio ac adnoddau dysgu a lleoliadau yn effeithiol. Dylai arolygwyr bennu sut mae arweinwyr a rheolwyr:**

- yn sicrhau bod penderfyniadau ar wariant a chynllunio ariannol eang yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau strategol a chynllunio'r darparwr ar gyfer gwelliant
- yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ag anghenion tymor hir dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol a osodwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- yn gwybod costau gweithgareddau presennol, yn eu hadolygu ac yn holi p'un a ydynt yn gost-effeithiol

**Dylai arolygwyr hefyd ystyried:**

- maint unrhyw arian dros ben neu ddiffyg ariannol o gymharu â chyllideb y darparwr
- p'un a oes tuedd gyson o wariant sy'n sylweddol uwch neu'n is na'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol ac ymchwilio i'r rhesymau am hyn, lle mae'n digwydd
- effeithiolrwydd prosesau i fonitro gwariant a bod y darparwr yn cyfyngu gwariant i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y gwariant a ddyrannwyd, fel y pennwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- a oes lefelau priodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth arfaethedig yn effeithiol
- p'un a yw'r darparwr yn defnyddio lleoliadau yn effeithiol ac yn effeithlon, a'r graddau y mae'r llety a'r offer, mewn lleoliadau mewnol ac allanol, yn cefnogi neu'n rhwystro addysgu a dysgu o ansawdd uchel